**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

**Peredur Owen Griffiths AS**
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

SeneddCyllid@senedd.cymru

24 Chwefror 2026

Annwyl Peredur

Gofynnodd argymhelliad 11 o adroddiad diweddar y Pwyllgor Cyllid wrth Graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod data ar gael ar lefel Cymru i gefnogi'r gwaith o fesur a monitro perfformiad economaidd ac effaith polisïau allweddol. Gofynnodd y Pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf erbyn i'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2025–26 gael ei gosod ar 24 Chwefror 2026. Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf hon i chi.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r SYG i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn wrth ddatblygu Cynlluniau Gwella Ystadegau Economaidd ac Arolygon y SYG. Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth nodi gofynion Cymru. Ym mis Rhagfyr 2025, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at Ysgrifennydd Parhaol y SYG i groesawu'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ailddatgan blaenoriaethau allweddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r ffordd y caiff samplau eu llunio a chwmpas arolygon o fusnesau, yr angen i ddiogelu ansawdd data is-genedlaethol, a phwysigrwydd hanfodol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer data ar y farchnad lafur, y Gymraeg a nodweddion y boblogaeth.

Rwy'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r Prif Ystadegydd ac eraill i gynnal trosolwg Gweinidogol o'r gwaith o wella data.

Mae'r materion hyn hefyd wedi cael eu trafod mewn uwch-fforymau llywodraethiant ystadegol ledled y DU, gan gynnwys cyfarfod chwarterol rheolaidd y Prif Ystadegwyr o bob cwr o'r DU, lle mae gweithgareddau adfer arolygon a blaenoriaethu'r SYG yn parhau i fod yn eitem reolaidd. Ar lefel waith, mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â thimau'r SYG sy'n gyfrifol am ystadegau economaidd, trawsnewid arolygon, ac allbynnau'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

farchnad lafur. Drwy'r sianeli hyn, rydym wedi nodi gofynion penodol i Gymru ac wedi cyfrannu at ddatblygu gwaith blaenoriaethu ac adfer y SYG.

Ar 19 Chwefror, cyhoeddodd y SYG yr wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau blaenoriaethu, gan gadarnhau camau i symleiddio allbynnau fel y gall ganolbwyntio adnoddau ar gynhyrchu a gwella ystadegau cenedlaethol craidd fel cynnyrch gros domestig (GDP), prisiau, data ar y farchnad lafur a'r boblogaeth, ochr yn ochr â'r gwaith ar yr Arolwg Trawsnewidiol o'r Llafurlu a Chyfrifiad 2031. Mewn ymateb i adborth cryf gan ddefnyddwyr (gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru), cadarnhaodd y SYG y bydd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn parhau i ddarparu mewnwelediad lleol a rhanbarthol.

Yn ddiweddar, mae'r SYG wedi cyhoeddi Adroddiad Monitro Ansawdd a Pherfformiad yr Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer mis Hydref i fis Ragfyr 2025. Mae'n adrodd am welliannau mewn ymatebion arolwg a gyflawnir ledled Prydain Fawr, gyda rhai gwelliannau mewn cyfraddau ymateb, gan gynnwys yng Nghymru, er gwaethaf heriau parhaus o ran ymgysylltu â'r arolygon. Gallai'r cynnydd a ddangosir awgrymu cynnydd bach mewn hyder yn y defnydd o'r data ar gyfer Cymru, fodd bynnag, mae ansawdd y data yn dal i fod yn isel yn ôl safonau hanesyddol. Mae swyddogion wedi gofyn i'r SYG ddarparu rhagor o fanylion am welliannau o ran ansawdd y data i Gymru fel rhan o ddiweddariadau yn y dyfodol.

Fel y noda'r SYG, mae ei Chynlluniau Gwella Ystadegau Economaidd ac Arolygon yn rhaglenni amlflwyddyn a bydd newidiadau i'r ffordd y caiff arolygon eu llunio a'u gweithredu yn cymryd amser i'w rhoi ar waith yn ofalus. Mae'r sefydliad wedi bod yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau gwella ac yn cynllunio ar gyfer rhagor, ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mae wedi bod yn ei wneud ar draws nifer o arolygon cymdeithasol ac arolygon o fusnesau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cynyddu nifer y cyfwelwyr i wella nifer yr ymatebion a gyflawnir. Cyhoeddwyd yr adroddiad cynnydd diweddaraf, sy'n adlewyrchu'r datblygiadau ehangach ar lefel Prydain Fawr ym mis Rhagfyr 2025. Byddem yn disgwyl i'r datblygiadau hyn gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar ansawdd y data i Gymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r SYG ar ystod o feysydd eraill sy'n cyfrannu at fesur effaith polisi yng Nghymru. Mae gennym eisoes gynllun gwaith ar y cyd gyda'r SYG ynglŷn â chydlyniad ystadegau ar y Gymraeg, a fydd yn ein helpu i wella ein dealltwriaeth o sut rydym yn mesur ac yn monitro'r cynnydd tuag at ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er enghraifft, fe wnaethom gysylltu data Cyfrifiad 2021 â data'r Arolwg o'r Llafurlu i ddeall gwahaniaethau yn y ffordd y mae pobl yn adrodd am eu gallu yn y Gymraeg rhwng gwahanol arolygon. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r SYG i gyflawni allbynnau allweddol o'r cynllun gwaith hwn, er enghraifft, ar ddeall y gofynion ar gyfer gwybodaeth am allu yn y Gymraeg y tu allan i Gymru, yn enwedig wrth i ni weithio gyda'r sefydliad ar gynlluniau a pharatoadau ar gyfer Cyfrifiad 2031.

Bydd y Pwyllgor yn falch o nodi, drwy ein hymgysylltiad parhaus â'r SYG, ein bod yn gweld rhai gwelliannau o ran ansawdd y data i Gymru. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau gyda'r data o hyd. Felly, mae swyddogion yn parhau i argymell defnyddio basged o ddangosyddion i fonitro'r farchnad lafur yng Nghymru, gan gynnwys ffynonellau amgen fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gwybodaeth Amser Real flynyddol CThEF am weithwyr cyflogedig, a nifer yr hawlwyr. Bydd swyddogion yn parhau i ymgysylltu'n agos â'r SYG wrth i waith datblygu pellach fynd rhagddo, gan bwysleisio pwysigrwydd data cadarn ar lefel Cymru er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Byddwn yn hapus i roi diweddariadau pellach am hynt y gwaith hwn i'r Pwyllgor wrth iddo ddatblygu.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language